# Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

**Consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg**
**Swyddfeydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg**
**Ysgol Uwchradd Llanwern**
**Heol Fferm Hartridge**
**Casnewydd**
**NP18 2YE**

**Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2016**

# Cyd-destun

## Proffil rhanbarthol

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer rhanbarth o bum awdurdod lleol, sef: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 2015 oedd 70,242. Mae hyn yn cynrychioli 19% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru. Mae 245 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, sef 15% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (CYBLD, 2015).

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 20.8%, sy'n uwch na'r ffigur cenedlaethol, sef 18.8%. Y lefel hon o gymhwyster yw'r uchaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol (CYBLD, 2015).

Yn y rhanbarth, dywed 10% o bobl sy'n dair oed ac yn hŷn eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19% (Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Ar 31 Rhagfyr 2015, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 4% o'r boblogaeth yn y rhanbarth ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Ar 31 Mawrth 2015, mae 1,090 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac mae hyn yn cynrychioli 19% o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

## Proffil perfformiad

Mae cyfradd y gwelliant yn neilliannau disgyblion yn Ne Ddwyrain Cymru mewn mwyafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn gyflymach na'r gyfradd ledled Cymru gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, er Medi 2012, barnwyd bod ychydig dros draean o ysgolion uwchradd yn dda neu'n well ar gyfer safonau yn arolygiadau Estyn. Mae hyn yn is na'r gyfran ledled Cymru, a hon yw'r gyfran isaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae deilliannau asesedig athrawon yn y Cyfnod Sylfaen wedi bod yr uchaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Yn ychwanegol, mae dros dair o bob pum ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae deilliannau asesedig athrawon yn debyg i'r rheiny ledled Cymru. Yn ychwanegol, at ei gilydd, mae perfformiad o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn gymedrol.

Er Medi 2012, barnwyd bod dwy o bob tair ysgol yn dda neu'n well ar gyfer safonau yn arolygiadau Estyn. Mae hyn yn unol â'r gyfran ledled Cymru.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi cynyddu ar gyfradd debyg i'r gyfradd ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn gymedrol ar y cyfan. Mae dros hanner yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

At ei gilydd, mae deilliannau asesedig athrawon ar draws y Cyfnod Sylfaen, cyfnodau allweddol 2 a 3 yn fwy cadarnhaol na pherfformiad yng nghyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 4, cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys cymhwyster TGAU gradd A*-C o ran eu perfformiad mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg yw'r gwannaf ar draws y pedwar consortiwm rhanbarthol. Fodd bynnag, mae wedi gwella'n gyflymach na'r hyn a welwyd ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn tri o'r pum awdurdod lleol yn y rhanbarth islaw'r targed meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, er bod perfformiad o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yn gymedrol ar y cyfan. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ar gyfradd ychydig yn arafach na'r gyfradd ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, yw'r isaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn ychydig yn llai na'r bwlch a welir yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg a mathemateg yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio wedi cynyddu'n gyflymach na'r gyfradd yng Nghymru, er bod hynny o sylfaen isel. Yn 2015, mae perfformiad ym mhob un o'r pum awdurdod lleol yn y rhanbarth islaw'r targed meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae llai na hanner yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ychwanegol, mae dros draean o ysgolion yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer y mesur hwn. Mae perfformiad yn y mesur hwn yn wan.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella'n gyflymach na ledled Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. At ei gilydd, y perfformiad yw'r gwannaf o hyd o'r pedwar consortiwm rhanbarthol ac mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn y 50% is pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* neu A neu fwy mewn TGAU neu gyfwerth wedi gostwng rhywfaint dros y tair blynedd ddiwethaf. Ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r mesur hwn fu'r gwannaf yng Nghymru.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ar gyfradd gymharol gyflymach na chyfradd Saesneg o gymharu â chyfraddau ledled Cymru. Yn ychwanegol, mae perfformiad o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg yng Nghymru yn fwy ffafriol ar gyfer mathemateg nag ar gyfer Saesneg ar y cyfan. Yn y ddau bwnc, mae dros hanner yr ysgolion yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae hyn yn welliant o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, ar gyfer Saesneg yn 2015, mae tuag un o bob tair ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn agos at gyfartaledd Cymru ond mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd islaw'r cyfartaledd.

## Argymhellion

A1 Ystyried defnyddio ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad ar lefel ysgol a rhanbarthol i sicrhau bod cynnydd pob grŵp o ddysgwyr yn cael ei herio a'i gefnogi

A2 Gwella cysondeb yn ansawdd arfarnu gweithgareddau gwella ysgolion ar draws y gwasanaeth

A3 Nodi a rheoli risgiau'n fwy effeithiol

## Prif ganfyddiadau

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Da**

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru weledigaeth gref ar gyfer gwella ysgolion sy'n cael ei deall a'i rhannu gan y rhan fwyaf o ysgolion ledled y rhanbarth.

Mae Fframwaith Ymyrraeth De Ddwyrain Cymru yn amlinellu'n glir y cymorth a'r her sydd wedi'u gwahaniaethu'n dda y mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn eu darparu i ysgolion. Er enghraifft, mae ysgolion sy'n perfformio'n dda iawn yn gweithio gyda'i gilydd i fonitro ac adolygu ysgolion ei gilydd, tra bod gan ysgolion eraill y mae angen eu gwella becynnau cymorth sy'n gweddu'n agos i'w hanghenion.

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg strategaeth tair blynedd ar waith ar gyfer gweithredu ei rhaglen cymorth o ysgol i ysgol. Mae hyn yn ddefnyddiol o ran helpu ysgolion i ddeall y system hunanwella a'r modd y bydd yn y pen draw yn ymgorffori gwahanol agweddau ar waith gwella ysgolion, er enghraifft cymorth llythrennedd.

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg brosesau cadarn ar waith i gynorthwyo ysgolion y mae angen eu gwella. Mae cyflwyno byrddau gwella addysg (BGAau) yn ddiweddar, sydd wedi eu modelu ar fyrddau ymyrraeth garlam Her Ysgolion Cymru, wedi helpu i gryfhau'r prosesau monitro ar gyfer yr ysgolion hyn. Trwy'r byrddau hyn, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn dwyn arweinwyr ysgol i gyfrif yn fwy cadarn am y cynnydd a wneir. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn yn llawn, mae'r ysgolion dan sylw wedi gwneud gwelliannau ar frys. Mae gan yr holl ysgolion yn y categori cymorth coch gynlluniau ymyrraeth addas sy'n cynnwys manylion am y gwelliannau y mae eu hangen a'r camau gweithredu y dylid eu cymryd i ysgogi'r gwelliannau hyn.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn defnyddio ymgynghorwyr her yn effeithiol. Ceir protocol clir ar gyfer eu gwaith, yn gymesur ag anghenion ysgolion. Mae ymgynghorwyr her yn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau i roi dealltwriaeth gadarn iddynt o gryfderau ysgolion a'u meysydd i'w datblygu, gan gynnwys dadansoddi data, arsylwadau o addysgu a dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Pan fo'n briodol, mae ymgynghorwyr yn darparu cymorth a her i wella presenoldeb disgyblion. Ceir proses drylwyr ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith ymgynghorwyr her. Mae uwch arweinwyr yn monitro eu gwaith yn dda trwy weithgareddau fel ymweliadau ar y cyd ag ysgolion a chraffu ar adroddiadau am ysgolion. O ganlyniad, mae arweinwyr yn nodi tanberfformio'n gyflym ac yn mynd i'r afael ag ef yn effeithiol. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd gwaith ymgynghorwyr her yn gyffredinol, er nad yw hyn yn gyson dda eto mewn rhai achosion.

Mae'r barnau sy'n cael eu llunio gan ymgynghorwyr her am safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn ysgolion yn gywir ar y cyfan. O ganlyniad, mae'r categoreiddiad ysgol diweddaraf yn drylwyr ac mae llawer o adroddiadau cyn-arolygiad yn rhoi darlun cywir o'r ysgol. Mae gwaith yr ymgynghorwyr her yn helpu prif ymgynghorwyr her ac uwch arweinwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i fod yn glir ynghylch cryfderau a diffygion mewn ysgolion. Maent yn rhannu a thrafod y

wybodaeth hon yn effeithiol gydag awdurdodau lleol, yn enwedig pan fydd ysgolion yn destun pryder. O ganlyniad, rhoddir gwybodaeth ddigonol i awdurdodau lleol i gefnogi eu defnydd o bwerau statudol i ymyrryd yn yr ysgolion hyn.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu ystod ddefnyddiol o ddata a dadansoddiad data i ysgolion. Mae systemau defnyddiol ar waith i gasglu a dadansoddi data ar lefel ysgol, awdurdod lleol a rhanbarthol. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn monitro llawer o brif ddangosyddion perfformiad ledled y rhanbarth yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio blaenoriaethau yn y cynllun busnes. O ganlyniad, pan fu ffocws penodol ar wella deilliannau, er enghraifft mewn Saesneg a mathemateg mewn TGAU, mae safonau wedi gwella. Er bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg mewn sefyllfa briodol o ran cofrestru disgyblion yn gynnar ar gyfer cymwysterau TGAU, nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn dilyn hyn yn ddigon trylwyr gydag ysgolion unigol i sicrhau nad yw'r defnydd o gofrestru cynnar yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr. Nid yw ymgynghorwyr her ac uwch arweinwyr yn canolbwyntio ddigon ar ystod lawn y data perfformiad i sicrhau bod yr holl ddysgwyr ledled y rhanbarth yn cael eu herio i wneud cynnydd da ar draws ystod o feysydd dysgu.

Mae ansawdd y cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn foddhaol. Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ddigon o ymgynghorwyr her i weithio gyda'i ysgolion Cymraeg. Mae penodi ymgynghorydd Cymraeg i dîm Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn ddiweddar wedi gwella'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg drefniadau effeithiol i helpu ysgolion i gydymffurfio â'r gofynion statudol i gymedroli asesiadau athrawon. Mae gwelliannau diweddar i arfarnu'r trefniadau hyn yn sicrhau bod ysgolion a nodwyd yn cael cymorth ac arweiniad ychwanegol. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae asesiadau athrawon yn annibynadwy o hyd. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi arweiniad clir i ysgolion ar y prosesau ar gyfer gosod a monitro targedau. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, fe wnaeth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gryfhau'r gwaith hwn trwy gyflwyno casgliadau canol blwyddyn o gynnydd yn erbyn targedau. Mae hyn yn helpu'r gwasanaeth i nodi tanberfformio posibl yn y flwyddyn academaidd, sydd wedyn yn cael ei herio.

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg drefniadau priodol ar waith i drefnu cymorth ar gyfer ysgolion yn y pynciau nad ydynt yn rhai craidd. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo ysgolion yn dda i baratoi ar gyfer newidiadau i gymwysterau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu cymorth cryf ar gyfer rhoi mentrau Llywodraeth Cymru ar waith, fel proses arloesi'r Fargen Newydd. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi cymorth buddiol â threfnu digwyddiadau cenedlaethol gan ysgolion o'r rhanbarth. O ganlyniad, mae arweinwyr ac athrawon ysgol wedi gwneud cyfraniadau llwyddiannus at y broses arloesi ar ddechrau'r gwaith hwn. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cefnogi gwaith ymgynghorwyr Her Ysgolion Cymru ledled y rhanbarth yn effeithiol.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu ystod gydlynus o ddeunyddiau hyfforddi a chymorth i godi safonau mewn Saesneg a llythrennedd. Caiff ysgolion fanylion am y cymorth sydd ar gael trwy'r cynnig dysgu proffesiynol. Yn ychwanegol, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi cynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau penodol, er enghraifft o ran gweithio i wella safonau disgyblion mewn ysgrifennu ym Mlaenau Gwent, neu ddisgyblion yn darllen yn Nhorfaen. Fodd bynnag, er bod adroddiadau cyfranogi yn gadarnhaol, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith lawn y strategaethau hyn o ran codi safonau.

Mewn mathemateg a rhifedd, mae yna gynnig dysgu proffesiynol sydd yr un mor gynhwysfawr. Mae'r cynlluniau i wella cyrhaeddiad mewn mathemateg yn cyfeirio'n briodol at ddulliau sy'n seiliedig ar ymchwil i wella addysgu, er enghraifft i ystyried dulliau o Singapore. O ganlyniad i'r cymorth a'r her gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, mae safonau disgyblion mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol er 2012, er bod hynny o fannau cychwyn isel. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi nodi grŵp o ysgolion sydd ag arfer gref iawn mewn addysgu a dysgu mewn mathemateg. Mae'r ysgolion hyn yn gweithredu fel canolfannau i ddarparu cymorth effeithiol o ysgol i ysgol ar gyfer eu cymheiriaid. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cefnogi ysgolion yn dda i gynnwys dull rhifedd strategol, ystyrlon sy'n galluogi disgyblion i wneud defnydd perthnasol o'u medrau rhifedd mewn gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg.

Yn dilyn ad-drefnu mewnol, mae gan uwch staff dynodedig gyfrifoldeb am sicrhau bod yr holl strategaethau a chynlluniau cymorth yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r angen i wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r rheiny sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi cryfhau ei ymrwymiad i wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, er enghraifft trwy'r 'cynnig gwasanaeth cau'r bwlch'. Mae hyn yn darparu arweiniad ymarferol a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i ysgolion ledled y rhanbarth. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant ar gyfer agweddau ar y gwasanaeth a gynigir bob amser yn ddigon clir neu fesuradwy i alluogi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i arfarnu effaith y camau gweithredu.

Mae ymgynghorwyr her yn monitro'n ddiwyd gynlluniau ysgolion ar gyfer eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Maent yn sicrhau bod y cynlluniau'n bodloni gofynion ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn dechrau gwella eu deilliannau ym mhob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, er bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n araf ledled y rhanbarth yng nghyfnod allweddol 4, mae'n amrywio'n sylweddol ar draws y pum awdurdod lleol.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi datblygu dull cydlynus o ddatblygu arweinyddiaeth, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella ysgolion. Er enghraifft, yn dilyn dadansoddiad o anghenion yn deillio o argymhellion arolygu, nododd y gwasanaeth fod diffyg ym medrau arweinwyr canol mewn nifer o ysgolion uwchradd. O ganlyniad, dyfeisiodd y gwasanaeth ystod eang o gyrsiau arwain, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau rheolwyr adrannol, dadansoddi data a hunanarfarnu. Yn ychwanegol, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi cynnwys cyrsiau arwain achrededig perthnasol fel rhan o'r hyfforddiant cynhwysfawr a ddarperir ar gyfer ysgolion. Mae'r rhaglenni hyfforddi hyn yn cysylltu'n dda â mentrau

cenedlaethol diweddar fel ysgolion arloesi'r Fargen Newydd a'r strategaeth i ddatblygu system hunanwella. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae llawer o'r gwaith hwn.

Ceir cyfleoedd da i benaethiaid ddatblygu eu medrau proffesiynol, er enghraifft trwy raglen arfarnu cymheiriaid y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer ysgolion sydd wedi eu categoreiddio yn wyrdd, ac yn fwy diweddar, rhai ysgolion sydd wedi eu categoreiddio yn felyn. Mae hyn yn galluogi penaethiaid o ysgolion llwyddiannus, sy'n aml yn cyflawni'n dda, i weithio gyda'i gilydd fel grŵp bach ac ymweld ag ysgolion ei gilydd. Yn ystod yr ymweliadau, mae cymheiriaid yn arfarnu a herio arfer broffesiynol eu cydweithwyr yn fuddiol, gyda chymorth gan ymgynghorydd her ac arweiniad defnyddiol gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae'r rhaglen yn meithrin gallu ar gyfer gwelliant parhaus yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, ac o ganlyniad yn galluogi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ganolbwyntio mwy o gymorth ymgynghorwyr her mewn ysgolion sy'n destun pryder.

Yn ychwanegol, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i benaethiaid llwyddiannus weithio fel ymgynghorwyr her partner rhan-amser ond gan gadw eu swyddi fel penaethiaid. Yn y rôl hon, mae arweinwyr profiadol yn elwa ar becyn hyfforddi ac ymsefydlu cynhwysfawr ochr yn ochr ag ymgynghorwyr her amser llawn, yn datblygu eu setiau medrau, ac yn parhau â'u datblygiad proffesiynol eu hunain trwy herio a chynorthwyo eu cyfoedion. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gwneud trefniadau cefnogol rhwng ysgolion ledled y rhanbarth hefyd i ddarparu mentora ar gyfer penaethiaid llai profiadol. Yn fwy diweddar, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi awdurdodau lleol yn dda o ran sefydlu swyddi penaethiaid gweithredol, lle bydd penaethiaid profiadol yn arwain mwy nag un ysgol.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi cymorth cryf i lywodraethwyr ysgol. Rhoddir gwybodaeth berthnasol ac amserol i lywodraethwyr am berfformiad eu hysgol, gan gynnwys dadansoddiad o ddata ariannol. Ceir gweithdrefnau da ar gyfer nodi anghenion datblygu llywodraethwyr ac ar gyfer hwyluso hyfforddiant gorfodol a phenodol priodol, er enghraifft ar gyfer datblygu rolau llywodraethwyr cyswllt ysgol ar gyfer llythrennedd, rhifedd neu eu hanghenion dysgu ychwanegol. Mae'r tîm cymorth i lywodraethwyr ac ymgynghorwyr her wedi datblygu pecyn canllawiau hunanarfarnu pwrpasol fel offeryn cymorth ac ymyrraeth effeithiol ar gyfer cyrff llywodraethol. Mae hyn wedi helpu llywodraethwyr ac arweinwyr ysgol i gael dealltwriaeth well o berfformiad, darpariaeth a llywodraethu eu hysgol.

Mewn arolwg diweddar o lywodraethwyr, nododd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg fod amrywiant sylweddol yn y wybodaeth yr oedd penaethiaid yn ei darparu ar gyfer eu cyfarfodydd cyrff llywodraethol. O ganlyniad, roedd y consortiwm yn darparu arweiniad clir a defnyddiol ar gyfer penaethiaid ynglŷn â'r hyn y gallai eu hadroddiadau ei gynnwys. Mae arolygon mwy diweddar yn cadarnhau bod llywodraethwyr yn cael eu hysbysu'n well erbyn hyn, ac o ganlyniad, maent yn gofyn cwestiynau mwy treiddgar sy'n dwyn arweinwyr yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn y gwaith hwn o ran gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mewn ysgolion.

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi datblygu i fod yn gwmni a arweinir yn dda sy'n darparu gwasanaethau addysg da ar ran y pum awdurdod lleol sy'n ei gomisiynu. Mae gan y cwmni weledigaeth glir a gwerthoedd cryf sy'n ategu ei waith. Caiff y rhain eu deall a'u rhannu gan staff mewnol a rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau etholedig.

Mae bwrdd y cwmni wedi cymryd camau priodol yn y 18 mis diwethaf i fynd i'r afael â gwendidau blaenorol yn ei drefniadau llywodraethu a sicrhau bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi ystyriaeth dda i Fodel Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol. Er enghraifft, mae cofnodion cyfarfodydd bwrdd a chyfarfodydd grwpiau cysylltiedig bellach ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae aelodaeth y bwrdd wedi sefydlogi, ac mae'r bwrdd bellach yn elwa ar fanteision gweithredu fel cwmni. Yn benodol, mae'r dull hwn o ddarparu gwasanaeth rhanbarthol yn galluogi'r bwrdd i wneud penderfyniadau'n gyflym a gweithredu'n chwim i fynd i'r afael â materion. Er enghraifft, gadawodd rheolwr gyfarwyddwr sefydlu'r cwmni i ymgymryd â swydd newydd yn 2015 ac, ar ôl ymgynghori â'i randdeiliaid, aeth y bwrdd ati'n gyflym i roi trefniadau mewnol effeithiol ar waith dros dro. Hefyd, comisiynodd y bwrdd adolygiad o'i wasanaethau brocera, ymyrraeth a chymorth a gweithredodd yn brydlon yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad adolygu trwy ailstrwythuro arweinyddiaeth y gwasanaethau hyn i ddarparu gallu cryfach. Mae'r bwrdd yn dwyn y rheolwr gyfarwyddwr dros dro i gyfrif yn gynyddol effeithiol, er nad oes trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol ar gyfer y rôl hon ar waith ar hyn o bryd.

Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i weithio gyda bwrdd y cwmni. Er ei bod yn rhy gynnar i arfarnu effeithiolrwydd y pwyllgor hwn, mae'n darparu llwyfan priodol i gynghori bwrdd y cwmni. Mae'r Cyd-Grŵp Gweithredol yn cynrychioli'r awdurdodau lleol comisiynu yn bennaf ac mae'n herio bwrdd y cwmni yn effeithiol o ran datblygu a chyflwyno ei gynllun busnes.

Mae'r cynllun busnes presennol yn adeiladu'n dda ar y cynllun blaenorol. Caiff blaenoriaethau lefel uchel priodol eu nodi ar sail dadansoddiad cadarn o ddata ac mae camau gweithredu strategol perthnasol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn wedi eu hamlinellu. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei gynllun. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer rhaglen y Fargen Newydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithwyr addysg proffesiynol ar bob lefel, ac mae wedi teilwra'i waith yn dda i gefnogi cyd-destun pob awdurdod lleol. Nid yw targedau ar gyfer gwella yn y cynllun yn rhoi digon o ystyriaeth i ystod eang o ddangosyddion perfformiad er mwyn mesur cynnydd mewn meysydd i'w gwella yn llawn, er enghraifft perfformiad dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr mwy abl.

Mae arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r awdurdodau lleol wedi datblygu perthnasoedd ymddiriedus sy'n galluogi iddynt herio gwaith ei gilydd yn effeithiol. Mae hyn yn golygu yr eir i'r afael yn gyflym â rhwystrau rhag cyflwyno'r cynllun busnes yn llwyddiannus.

Mae'r rheolwr gyfarwyddwr dros dro wedi bod yn ei swydd am ryw chwe mis. Mae hi wedi datblygu perthnasoedd gweithio cryf yn gyflym gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r trefniadau llywodraethu, yn ogystal ag uwch randdeiliaid eraill fel prif weithredwyr awdurdodau lleol. Mae hi wedi rheoli'r cyfnod o newid ers i'r rheolwr gyfarwyddwr blaenorol adael yn effeithiol ac wedi manteisio ar gyfleoedd i wella gweithrediad y cwmni ymhellach. Yn benodol, mae hi wedi symleiddio'r drefn o gyfathrebu ag ysgolion ac wedi dod ag eglurder a thrylwyredd ychwanegol i sawl agwedd ar waith y staff bob dydd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg weithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella sy'n systematig, yn ymatebol ac yn hyblyg, ac yn darparu llwyfan i'r gwasanaeth ar gyfer mireinio gwasanaethau gwella ysgolion i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae hunanarfarnu yn gynyddol gynhwysfawr a systematig, ac mae'n rhan reolaidd o gylch gwella'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae arweinwyr meysydd gwasanaeth yn adolygu cynnydd bob hanner blwyddyn. Mae'r enghreifftiau gorau o adolygiadau yn ddadansoddol ac yn nodi effaith y camau gweithredu mewn ysgolion yn glir. Nid yw rhai arfarniadau'n ddigon craff na phenodol. Fodd bynnag, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnig her briodol i arweinwyr tîm ac yn eu cynorthwyo'n dda i wella eu dadansoddiadau. I ddarparu gwiriad mwy rheolaidd ar gynnydd, caiff hunanarfarnu ei wella trwy ddefnyddio dull 'FADE', y mae'r priflythrennau'n sefyll am ffocws (focus), dadansoddi (analyse), gwneud (do), arfarnu (evaluate). Mae hyn yn cynnig offeryn gwerthfawr i arfarnu gweithgareddau neu themâu o'r cynllun busnes dros dro trwy gydol y flwyddyn. Cyflwynwyd y dull hwn yn ddiweddar, ac mae amrywioldeb yn ansawdd adroddiadau, ond ceir ffocws cyson a rheolaidd ar effaith a chynnydd gwaith y Gwasanaeth Cyflawni Addysg erbyn hyn. Mae model FADE yn darparu fframwaith model trefnus ar gyfer atebolrwydd, mae'n galluogi'r gwasanaeth i addasu ymyrraeth mewn ffordd fwy ymatebol, ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu diwylliant o welliant parhaus.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno ac yn darparu arfarniad gonest a chywir o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Mae'r cynllun busnes yn gwneud defnydd addas o'r dadansoddiad o ddata perfformiad a deilliannau gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae ymgynghori gwerthfawr â rhanddeiliaid wedi ffurfio'r cynllun fel ei fod yn adlewyrchu'r dull cydweithredol a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gyda'i bartneriaid. Mae'r cynllun busnes yn cynnwys pwyslais addas ar amcanion a chyfleoedd cynlluniedig tymor canolig i arfarnu effaith y gwaith sy'n mynd rhagddo. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, nid yw targedau ar gyfer gwella yn canolbwyntio'n ddigon da ar feysydd pwysig i'w gwella, fel gwella cyflawniad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i arweinwyr fonitro cynnydd yn y meysydd hyn.

Mae cynlluniau maes gwasanaeth a'r cynllun strategol cyffredinol yn amlinellu strategaethau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn dda, sef gwella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth, diwygio'r cwricwlwm a chryfhau'r fframwaith cymwysterau. Mae ffocws strategol clir ar gynyddu gallu ysgolion i gyfrannu at

system hunanwella. Trwy'r strategaethau hyn, mae'r cynlluniau'n darparu strwythur cydlynus i wella cyflawniad mewn Saesneg, mathemateg a Chymraeg, a gwella'r deilliannau ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r defnydd effeithiol o ddulliau rheoli prosiectau yn helpu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i nodi materion mewn meysydd penodol o'i waith i wella ysgolion. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n gynhyrchiol i wella darpariaeth a deilliannau, er enghraifft mewn gwyddoniaeth ac ym Magloriaeth Cymru.

Mae adroddiadau perfformiad, adroddiadau cynnydd a dadansoddiad data a lunnir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhoi gwybodaeth sy'n briodol dryloyw a chywir i randdeiliaid. Mae'r Cyd-Grŵp Gweithredol a bwrdd y cwmni yn craffu ar gyflwyno'r cynllun busnes gydag effeithiolrwydd cynyddol a lefel briodol o her. Mae adroddiadau i'r Cyd-Grŵp Gweithredol a bwrdd y cwmni bellach yn nodi risgiau ac yn cyfeirio'n briodol at y gofrestr risg. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r drefn o nodi a rheoli risg yn ffurfiol yn y cwmni.

Mae'r rhan fwyaf o amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu'n glir â'r blaenoriaethau yn y cynllun busnes. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw targedau'n ddigon manwl i alluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd yn effeithlon.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi ymateb yn dda i'r argymhellion ar gyfer consortia rhanbarthol mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015. Mae'r gwasanaeth wedi defnyddio arolygon allanol yn effeithiol hefyd i wella'i weithdrefnau gwella ansawdd.

**Partneriaethau: Da**

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg weledigaeth gref ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, wedi'i chefnogi â lefelau uchel o ymrwymiad gan aelodau etholedig, uwch arweinwyr a phartneriaid strategol. Mae uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad sylweddol i ddatblygu partneriaethau strategol ar draws y rhan fwyaf o agweddau ar arfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg linellau cyfathrebu effeithiol ag ysgolion. Er enghraifft, mae'r ymgynghori a'r ymgysylltu â phenaethiaid trwy'r grŵp strategaeth rhanbarthol i benaethiaid yn gweithio'n dda i sicrhau bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn bodloni anghenion eu hysgolion. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn ymgynghori ag ystod dda o grwpiau ymgynghorol ffurfiol yn rheolaidd, fel y grŵp strategaeth rhanbarthol i lywodraethwyr, sy'n sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth berthnasol ac sy'n dechrau cyfrannu at ddatblygu gwaith newydd.

Ceir cyswllt a chyfathrebu da rhwng y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac uwch reolwyr a swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio'n effeithiol gyda chyfarwyddwyr, prif weithredwyr, aelodau etholedig ac asiantaethau allanol er mwyn gallu cyflwyno rhaglenni cysylltiedig sy'n gwella deilliannau a lles ar gyfer dysgwyr. Ceir trefniadau da ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Er enghraifft, mae cyfarfodydd misol defnyddiol swyddogion awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i drafod a rhannu gwybodaeth am faterion penodol mewn ysgolion yn golygu y gellir rhoi cymorth priodol ac amserol i ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio'n dda gyda'r awdurdodau lleol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a hyrwyddo cynhwysiant a lles cymdeithasol. Ceir perthynas weithio fuddiol rhwng prif ymgynghorwyr her a swyddogion arweiniol awdurdodau lleol, sy'n golygu y gellir rhannu gwybodaeth am grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol gydag effeithiolrwydd cynyddol. Mae cydweithio pwrpasol rhwng y gwasanaethau hyn wedi arwain at rannu arfer yn fuddiol ledled y rhanbarth. Yn ychwanegol, mae ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion ledled y rhanbarth bellach yn cydweithio ac fe geir dull mwy cydlynus o ddatblygu polisi. Fodd bynnag, ni chaiff coladu a dadansoddi data am ddisgyblion sy'n agored i niwed eu defnyddio ar lefel ddigon strategol ledled y rhanbarth i lywio cynllunio gwelliant.

Mae'r gwasanaeth adnoddau dynol (AD) arbenigol o fewn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cydweithio â gwasanaethau AD yr awdurdod lleol i gynnig cymorth a hyfforddiant gwerthfawr i ysgolion ac ymgynghorwyr her. Mae'r cydweithio a chynllunio'r adnodd ar y cyd yn ddiweddar wedi arwain at arbedion maint wrth gyflwyno hyfforddiant ledled y rhanbarth a sefydlu polisïau ac arferion gweithio cyffredin. Mae cydweithio agos y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a gwasanaethau AD awdurdodau lleol ag undebau llafur wedi arwain at ddatblygu trefniadau gallu a rheoli perfformiad ar y cyd, gan wella'r cymorth a gaiff ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn ymgysylltu'n effeithiol ag awdurdodau esgobaethol, gan sicrhau bod cytundeb clir am gydweithio a chyfle i weld gwybodaeth berthnasol am ei ysgolion. Cânt eu cynnwys yn briodol mewn trafodaethau a phenderfyniadau am eu hysgolion. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi hyfforddi ei ymgynghorwyr her i wella eu dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud yn benodol ag ysgolion eglwysig ac mae wedi datblygu rôl ymgynghorydd her cyswllt ar gyfer ysgolion eglwysig yn ddefnyddiol. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi cynnwys awdurdodau esgobaethol yn ffurfiol yn ei drefniadau llywodraethu ac fel grŵp ymgynghorol ffurfiol.

Cafwyd gwelliant yn y ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu ac mewn perthnasoedd gweithio rhwng ymgynghorwyr her y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac ymgynghorwyr Her Ysgolion Cymru Llywodraeth Cymru, er enghraifft trwy gyfarfodydd rheolaidd ar gynnydd ysgolion a thrwy rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol gyda'i gilydd, a rhyngddynt.

Ceir cysylltiadau cynyddol fuddiol gyda darparwyr addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan y partneriaid hyn, er enghraifft wrth ddatblygu ymagweddau at y Fargen Newydd a Dyfodol Llwyddiannus i gefnogi ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i ddatblygu rhaglen gymorth ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae'r gwasanaeth wedi cydweithio'n dda â'r holl ysgolion sydd â chweched dosbarth yn y rhanbarth a gyda sefydliadau addysg bellach i ddatblygu rhaglen weithgarwch ar gyfer dysgwyr mwy abl. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y rhaglenni hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cydweithio â'r consortia yn y tair rhanbarth arall yng Nghymru yn datblygu'n briodol, ac fe geir cyfleoedd buddiol i rannu arfer dda a syniadau. Er enghraifft, mae

ymgynghorwyr her wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd â Chonsortiwm Canolbarth y De i wella ansawdd adnoddau i gefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n wynebu heriau yn sgil tlodi. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhannu ei waith, lle bo'n briodol, gyda'r consortia eraill, er enghraifft y rhaglen beilot ar gyfer adolygu cymheiriaid yn y categori cymorth gwyrdd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi gwella ei allu ar gyfer rheolaeth ariannol, ac mae hyn bellach yn gadarn. Caiff incwm a gwariant eu monitro'n fanwl, ac adroddir gwybodaeth yn dda wrth y Cyd-Grŵp Gweithredol a bwrdd y cwmni. Mae trefniadau clir a diweddar ar waith i ddangos sut caiff adnoddau eu dyrannu yn unol â blaenoriaethau a nodi'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer pob elfen o'r cynllun busnes a'i atodiadau manwl. Mae hyn yn rhoi sylfaen dda i gefnogi strategaethau gwella. Mae'r wybodaeth yn cwmpasu cyllid craidd, incwm grant a gedwir i'r cwmni ac incwm a gynhyrchir. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig drafft a ddatblygwyd yn ddiweddar yn adeiladu ar y wybodaeth hon ac mae'n dangos ei fod yn helpu i reoli newidiadau i incwm.

Mae'r cyllid craidd ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gan awdurdodau lleol wedi bod ar y lefel a amlinellir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol, ond mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac awdurdodau lleol wedi cytuno i ostyngiad o 3% mewn cyllid craidd ar gyfer 2016-2017 ochr yn ochr â gostyngiad mewn incwm grant. Er gwaethaf pwysau ar gostau, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cynnal ei wasanaethau blaenoriaethol. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac awdurdodau lleol wedi cytuno'n briodol ar y trefniadau ar gyfer unrhyw gyllid dros ben, sy'n galluogi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gadw cyllid dros ben hyd at 5% a'i ailfuddsoddi mewn blaenoriaethau gyda chytundeb y Cyd-Grŵp Gweithredol a bwrdd y cwmni.

Caiff holl gyllid grant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gadw ar gyfer gwariant trwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ei gwmpasu gan drefniadau ariannol y cwmni. Mae ymgynghorwyr her y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a staff eraill yn herio ysgolion ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer defnyddio eu cyllid grant, yn enwedig y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg, ac fe gaiff rheoli adnoddau gan ysgolion ei ystyried mewn cyfarfodydd ynglŷn ag ysgolion sy'n destun pryder.

Er nad oes ganddo strategaeth ysgrifenedig ar y gweithlu, mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ddealltwriaeth resymol o anghenion gweithlu yn y dyfodol, ac mae hyn wedi llywio'r cynllun busnes a'r cynllun ariannol tymor canolig drafft. Mae'r cwmni'n gweithio'n dda gyda'i staff, awdurdodau lleol ac undebau llafur i gytuno ar delerau ac amodau, ac mae'n cryfhau ei allu ei hun yn y maes hwn yn sgil penodi Rheolwr Adnoddau Dynol a Chyfathrebu newydd.

At ei gilydd, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gwneud cynnydd da o ran sefydlu ei ddull o asesu ac adrodd ar werth am arian, er nad yw agweddau wedi eu mireinio ddigon eto. Mae adroddiad diweddar ar werth am arian i'r Cyd-Grŵp Gweithredol yn cynnwys trosolwg lefel uchel sy'n nodi gwelliant uwch na'r cyffredin mewn perfformiad, er bod cyllid wedi gostwng 20.9% rhwng 2012-2013 a 2016-2017.

Mae'r dull hwn yn rhoi ystyriaeth briodol i'r adnoddau sy'n cael eu cymhwyso i waith ymgynghorwyr her, datblygiadau ysgol i ysgol a hyfforddiant ar lefel awdurdod lleol, ac mae'n nodi categoreiddiad pob ysgol ar lefel awdurdod lleol. Mae'r math hwn o ddadansoddiad yn golygu y gellir ystyried yr adnoddau a ddefnyddir a'u gwerth am arian yng ngoleuni newidiadau yn y dyfodol i gategoreiddio ysgolion yn gyffredinol ac ar gyfer pob awdurdod lleol.

Caiff y broses arfarnu gwasanaethau, FADE, ei chymhwyso i holl elfennau'r cynllun busnes ac fe'i diwygiwyd yn Ebrill 2016 i gynnwys gwybodaeth am gostau'r gwaith sy'n cael ei adolygu ac arfarniad gwerth am arian. Er bod y broses hon yn darparu strwythur i allu ystyried effaith a gwerth cymharol am arian gwasanaethau penodol, megis dechrau datblygu y mae hyn. Mae'r broses i gynllunio adnoddau ac adolygu gwasanaethau yn fanwl eisoes wedi nodi nifer fach o feysydd gwasanaeth lle gellir lleihau adnoddau a gwnaed newidiadau priodol.

# Atodiad 1

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mark Campion | Arolygydd Cofnodol |
| Jane McCarthy | Arolygydd Tîm |
| Tony Bate | Arolygydd Tîm |
| Sarah Lewis | Arolygydd Tîm |
| Fiona Arnison | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan | Arolygydd Tîm |
| Robert Davies | Arolygydd Tîm |
| Richard Lloyd | Arolygydd Tîm |
| Steve Martin | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Kirsty Bevan | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

### Y Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu lefel 7.

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6). Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen: llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu'r sector ôl-16

**Y dangosydd pwnc craidd** – fel yr uchod.

**Cymhwyster lefel 1** – mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd D i G.

**Trothwy lefel 1** – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill swm o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster lefel 2** – mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd A* i C.

**Trothwy lefel 2** – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill swm o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU gradd A* i C.

**Trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill cymwysterau lefel 2 naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster lefel 3** – mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch gradd A* i C.

**Trothwy lefel 3** – mae'n rhaid bod dysgwyr wedi ennill swm o gymwysterau sydd gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch gradd A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu â nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol y mae eu caffaeliad yn llai na chymwys.